**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo, a gynhaliwyd Nos Fawrth 18 o Orffennaf 2017 am 7:00 yh, yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Alan Pritchard, Avril Jones, Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Rhys Parry, Martin Jones, Llywelyn Williams, Clifford Williams

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Phil Roberts, Richard Robinson, Meryl Green,

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd dros Gwm y Glo

**Aelodau Ieuenctid:** Beca a Miriam

**Hefyd yn bresennol:** (ar gyfer eitem 4 yn unig) Mr Arwyn Williams, Prifathro Ysgol Brynrefail

**Clerc:** Meirion Jones

1. **Croeso gan y Cadeirydd**

   Estynnodd y Cadeirydd groesi i bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i Mr Arwyn Williams o Ysgol Brynrefail.

2. **Derbyn Ymddiheuriadau**

   Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.

3. **I gyfethol Mrs Haf Williams**

   Penderfynwyd: Cyfethol Mrs Haf Williams fel aelod o'r Cyngor. Nodwyd yn anffodus nad oedd yn gallu bod yn bresennol heno ac ei fod wedi ymddiheuro.

4. **I dderbyn adroddiad gan Brifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug am waith mae'r Ysgol yn ei wneud i atgoffa disgyblion o'i cyfrifoldeb i'r gymuned y tu allan i'r Ysgol yn sgil digwyddiadau diweddar**

   Croesawyd Mr Williams i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned a diolchwyd iddo am ddod. Eglurodd y camau mae'r Ysgol wedi ei gymryd i geisio cael y neges drosodd i'r disgyblion am ei cyfrifoldebau tu allan i'r ysgol ac i'r gymuned. Adroddodd ymhellach, ei fod heddiw gyda Swyddog Cyswllt Ysgolion o'r Heddlu, wedi siarad a disgyblion blwyddyn 9 a 10 i'w atgoffa o'i ymddygiad nawr gan ein bod ar drothwy gwyliau Haf.

   Nodwyd gan Mr Williams byddai ef a'r Ysgol yn fodlon iawn i gyd weithio gyda'r Cyngor Cymuned ac pe byddai'r Cyngor yn dymuno cynnal cyfarfod ar y cyd gyda'r Heddlu, yna byddai yn fwy na pharod i fod yn rhan o'r cyfarfod.

Trafodwyd y posibilrwydd o rhywun o'r Cyngor fynd i'r Ysgol i siarad a'r disgyblion ac i esbonio faint mae difrod yn ei gostio i'r Cyngor a'r effaith mae hyn yn gael ar y gymuned.

**Penderfynwyd:**

a) Cytuno i gydweithio gyda'r Ysgol ac i wahodd y Prifathro i drafodaethau gyda'r Heddlu.
**b)** Cytunodd y Prifathro byddai yn syniad da i rhywun o'r Cyngor fynd i'r Ysgol i siarad gyda'r disgyblion o oblygiadau ac i wneud trefniadau ar ôl i'r tymor newydd gychwyn.

5. **Datgan buddiant personol**

Rhain i'w datgan gan yr aelodau pan yn briodol

6. **Cadarnhau Cofnodion mis Mehefin**

Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

7. **Materion yn codi o'r cofnodion**

**Item 7 - Llenwi seddau gwag ar y Cyngor**

Nodwyd fod y seddi bellach wedi llenwi a croesawyd Martin Jones a Llywelyn Williams i'r Cyngor a croesawyd Clifford Williams yn ôl.

**Item 8 – Diweddariad ar giât maes chwarae Pwll Moelyn**

Cafwyd adroddiad byr ar y sefyllfa ddiweddara a nodwyd nad oedd clo ar y giât. Nodwyd ymhellach fod y Cadeirydd wedi bod yn siarad a aelod o elusen 'Back Up' ac eu bod wedi rhoi gwahoddiad iddo gysylltu a nhw am gymorth ar sut giât fyddai orau.

**Item 16 - I ystyried cyfraniad gan y Cyngor tuag at dorri gwair Mynwent yr Eglwys**

Nodwyd fod cyfarfod wedi bod ar y safle gyda'r Cynghorydd Charles Jones. Ymddengys fod y broblem torri gwair mynwent yr Eglwys yn fwy na'r hyn a dybiwyd yn gyntaf. Adroddwyd nad oes cais wedi dod i fewn gan yr Eglwys am gyfraniad i dorri gwair y fynwent eto. Cafwyd trafodaeth ar ble yn union sydd angen ei dorri a pa ran sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor. Ymddengys fod peth ddryswch a bydd angen cadarnhad yn union o ble yw'r ardal. Nodwyd ymhellach fod rhan o'r fynwent bellach wedi cael torri gwair.

8. **Materion Cynllunio**

Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio: C17/0598/23/LL

Lleoliad y Safle: Cefn Llwyd, Cwm-y-Glo, Caernarfon, LL554 EB

Dyddiad Cofrestru: 27 Mehefin 2017

Math o Gais: Llawn - Cynllunio

Ward: Cwm y Glo

Cymuned: Llanrug

Bwriad: Addasu'r adeiladau allanol ar gyfer 2 uned wyliau ynghyd ac offer trin carthion

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio: C17/0646/23/HY

Lleoliad y Safle: Co-operative Food, Station Road, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AG

Dyddiad Cofrestru: 30 Mehefin 2017

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad i'r cais ond fod angen gwneud sylw am newid y geiriau ar y ffrynt i "Croeso i Coop Llanrug – Welcome to Llanrug's Co-op", a gwneud i ffwrdd a cyfeirnod at 'Station Road' oherwydd nad oedd dim ond un Co-op yn Llanrug.

**9. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwm y Glo, parthed y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymryd gofal o feysydd chwarae Cwm y Glo a Dolafon**

Adroddwyd fod cyfarfod wedi gynnal yng Nghwm y Glo yn wreiddiol i drafod materion a dynnwyd sylw'r Cyngor atynt yn dilyn yr asesiad risg o'r parc sglefrio. Yn bresennol roedd y Cynghorwyr Alan Pritchard, Avril Jones, Cemlyn Jones, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd) a'r Clerc.

Nodwyd y gwaith roedd angen ei wneud ar y parc a dylid cael prisiau gan gwmnïau lleol fyddai yn gallu gwneud y gwaith.

Yn dilyn hyn, aethpwyd ymlaen i drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd y cyfrifoldeb gan Gyngor Gwynedd o ofalu am y cae chwarae. Deallwyd nad oed fawr o ddefnydd o'r cae ar hyn o bryd oherwydd ei gyflwr ac nad yw'r ysgol gynradd yn gallu ei ddefnyddio oherwydd y tyfiant. Nodwyd ymhellach petai yn dod oddi tan y Cyngor Cymuned yna y gobaith

fyddai ei dorri ac i'e gael i safon caeau chwarae Nant y Glyn a Pwll Moelyn yn Llanrug. Gofynnir i'r Cyngor ystyried y posibilrwydd o wneud cais i Gyngor Gwynedd am gymryd gofal o'r cae chwarae yng Nghwm y Glo.

**Penderfynwyd:**

a) Hysbysu Cyngor Gwynedd o ddymuniad y Cyngor Cymuned i gymryd cyfrifoldeb o'r cae chwarae;
b) Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd ac i gychwyn trafodaethau ar gymryd y caeau chwarae drosodd.
c) Holi ein contractwr presennol am bris i dorri'r gwair.
d) Holi contractwr am bris i dorri'r coed yn y parc sglefrio

**10. I dderbyn adroddiad am ddigwyddiadau diweddar yn Llanrug.**

Gweler adroddiad ar eitem 4 ond pwysleisiwyd fod angen mwy o bresenoldeb yr heddlu yn y pentref ac fod angen swyddog o'r heddlu fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y wybodaeth ac i'r Clerc gysylltu a'r heddlu ar frys i ofyn am bresenoldeb yn y cyfarfod ac i gysylltu a'r Comisiynydd be na fyddai ymateb.
b) Gofyn am ystadegau o achosion yn Llanrug a Chwm y Glo
c) Holi os yw'n bosib cael manylion o pa bryd mae'r heddlu wedi ymweld a Llanrug a Chwm y Glo.

**11. I ystyried trefnu cyfarfod cyhoeddus ar y cyd rhwng aml asiantaethau.**

Nodwyd fod yr Ysgol yn fodlon cydweithio gyda'r heddlu a'r Cyngor.

**12. I ystyried pa gamau dylid eu cymryd yn erbyn plant a phobl sydd yn difrodi eiddo'r Cyngor – adroddiad ar fater diweddar ble bu'n rhaid galw'r frigâd dân allan i dorri person yn rhydd o siglen ar gae Nant y Glyn.**

Adroddwyd fod y frigâd dan wedi ei galw allan i gae Nant y Glyn oherwydd i fachgen fynd yn sownd mewn siglen ar gyfer baban a bu'n rhaid i'r frigâd dan dorri'r siglen i'w ryddhau

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth ac i geisio cael manylion cyswllt y plentyn gan y gwasanaeth tan fel ein bod yn gallu anfon bil iddo am y difrod.

**13. I dderbyn adroddiad y Pwyllgor Cyllid a'r argymhelliad cyflog**

Gan fod y wybodaeth uchod yn sensitif, ni fydd hwn yn cael ei wneud yn gyhoeddus a byddant yn parhau o dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael eu heithrio o'r cyhoedd, yn ystod y drafodaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn yr eitem uchod. Mae hyn oherwydd ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir yn y paragraff perthnasol o Ran 1 o Atodlen 12A y Ddeddf, a'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn fwy na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

**14. I benodi cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd nad oedd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol ers i'r cynrychiolydd blaenorol roi gorau i eistedd ar y Cyngor

**Penderfynwyd:** Etholwyd y Cynghorydd Llywelyn Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd llywodrfaethwyr yr Ysgol Gynradd

**15. Cyfarfod mis Awst – i drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod mis Awst.**

Nodwyd nad oedd cyfarfod o'r Cyngor fel arfer yn mis Awst ond teimlwyd od yn bosib cynnal un.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i holi oes oes digon i gael cworwm ar gyfer y fed o Awst neu ddyddiad arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd Dyddiad